

Manylion am Gerbyd Hurio Preifat

1. Mae'n rhaid bod 4 olwyn ar y cerbyd ac mae'n rhaid bod o leiaf 4 drws arno hefyd. Diffiniad o ddrws yw mynediad uniongyrchol i mewn ac allan o'r cerbyd, sydd heb ei rwystro gan seddi na bagiau neu unrhyw beth arall, ac y gellir eu hagor o du mewn a thu allan y cerbyd gan y teithiwr.
2. Mae'r amod canlynol yn berthnasol i gerbydau sydd â thrwydded i gario mwy na 4 o deithwyr:-
Mae'n rhaid i bob teithiwr fod â ffordd uniongyrchol o fynd i mewn i'r cerbyd ac allan ohono heb orfod dringo dros seddi eraill neu fagiau. Ni fyddai hyn yn cynnwys pan fo raid plygu sedd i lawr er mwyn caniatáu mynediad neu ffordd allan. Mae'n rhaid i bob sedd fod yn 400mm yn y man culaf.
3. Rhaid i'r cerbyd yrru ar y llaw dde.
4. Rhaid i'r cerbyd fod â Thystysgrif M.O.T gyfredol lle bo'n briodol.
5. Rhaid i'r cerbyd gael ei gyflwyno i gael ei archwilio mewn cyflwr glân ac yn addas i'r ffordd fawr, a bydd ei holl osodiadau ac offer yn cael eu cadw mewn cyflwr effeithlon, diogel, taclus a glân, a rhaid iddo gydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai o fewn Rheoliadau Cerbydau Modur (Adeiladwaith a Defnydd).
6. Ni ddylai'r cerbyd fod o fath, cynllun nac ymddangosiad a fyddai'n peri i rywun gredu bod y cerbyd yn Gerbyd Hacni.
7. Rhaid bod digon o le i fagiau yn y car; er y caniateir rac to, fe ddylai hwn fod er mwyn darparu lle ychwanegol ar gyfer bagiau, nid fel dewis arall - ni chaniateir i unrhyw beth arall gael ei osod ar y to.
8. Mae'n rhaid bod teclyn diffodd tân yn y cerbyd (powdr sych, o leiaf 2.00kg mewn pwysau) wedi ei leoli mewn man sydd yn hawdd ei gyrraedd er mwyn ei ddefnyddio.
9. Mae'n rhaid bod bocs cymorth cyntaf priodol yn y cerbyd, a dylai gynnwys o leiaf y canlynol: cerdyn yn rhoi cyngor cyffredinol am gymorth cyntaf, chwe gorchudd gludiog di-haint wedi'u pecynnu'n unigol, un rhwymyn di-haint plaen mawr, dau rywymyn triongl, dau o binnau cau a weips glanhau wedi'u pecynnu'n unigol ac un pâr o fenig y gellir eu taflu.
10. Rhaid i'r cerbyd allu cario o leiaf pedwar o deithwyr a dim mwy nag 8 o deithwyr, yn ychwanegol at y gyrrwr.
11. Mae'n rhaid bod yna Dystysgrif Yswiriant gyfredol ar gyfer y cerbyd.
12. Mae'n rhaid i'r cerbyd basio profion mecanyddol ac addasrwydd y Cyngor Sir cyn y gellir cyflwyno trwydded.
13. Mae'n rhaid i bob sedd a phob sedd i deithwyr yn y blaen fod â gwregys diogelwch lletraws ac ar draws y glin, a chynhaliwr pen.